

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod : 02.07.13
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol : Y Cynghorwyr ; Dylan Jones, Danny Davies, Arwel Nicholas, Carolyn Smethurst, Malcolm Howells, Wyn Thomas, Cyngorydd Sir, Irfon Jones.
Ymddiheuriadau : Mrs Mali Lloyd, Elfed Davies.

Rhif Agenda	Nodiadau/ Pendefyniadau	I'w weithredu gan
Cofnodion	Cafwyd yn gywir. Cynnigydd; Danny Davies, eiliwyd, Malcolm Howells.	
Materion yn Codi	<p>Carthffosiaeth: ateb aneglur oddiwrth Dŵr Cymru; dim yn dderbyniol. Llythyra eto gyda Dŵr Cymru a Simon Hart. Cyfarfod Bwrdd Gweithredol Castell Newydd Emlyn; adroddiad WT a MH.. Cyfarfod cyffredinol yn hytrach na chanolbwyntio ar fater y Cyfleusterau Cyhoeddus.</p> <p>Gofynnodd WT paham roedd Parc y Scarlets a Ffôs Las yn derbyn arian cyheoddus? Atebwyd nad oedd hi felly, ond bod Cyngor Sir Gâr yn Dirfeddiannwyr ar Barc y Scarlets.</p> <p>Ynglyn â'r Cyfleusterau; pe byddai'r Gymuned yn cyfrannu tua £500 tuag at y costau, efallai fyddde'r Sir yn parhau l'w cynnal. Roedd Cyngor Cymuned Conwil wedi cael cytundeb gwell na'r disgwyl wrth iddynt fabwysiadu eu Cyfleusterau. Mi fydd un o Gyfleusterau Castell Newydd Emlyn yn aros ar agor am gyfnod.</p> <p>Gan fod Neuadd Llanpumsaint wedi cyfrannu tir ar gyfer adeiladu'r Cyfleusterau; paham nad oes mwy o drafod rhyngddo'r Sir a'r Gymuned ynglyn a dyfodol y Tai Bach? Bont y Felin – cyflwr gwael ac yn diriwio yn gyflym.</p> <p>Angen llinellau gwyn ar ben heol yr Esgair.</p> <p>Ty Nant – perygl l drafnidiaeth a cherddwyr yn parhau oherwydd gordyfiant y llwyni.</p> <p>Carafan Penrhiwfach – wedi derbyn gorchymyn gorfodaeth.</p> <p>Map y Pentref – WT yn gwirio sillafu'r cyfeiriadau.</p> <p>Cronfa Jenny Eirian – dim rhagor o wybodaeth wedi dod l glawr.</p> <p>Gratin dŵr Glyn Neuadd heb ei drwsio o hyd</p>	Clerc
Gohebiaeth	<p>Llythyr Derick Locke – Cynrychiolydd wedi ei ethol gan y Cyngor l fod yn Ymddiriedolwr l'r Neuadd Goffa; tymor 4 mlynedd yn gorffen. Yn fodlon parhau yn y swydd am gyfnod arall os mae hyn yw dymuniad y Cyngor. Cynnigiwyd enwau dwy wraig; Jo Davies a Kate Frost, l'w hystyried l fod yn Ymddiriedolwragedd yn ôl dymuniad y Gymuned.</p> <p>Cytunwyd ail enwebu Derick Locke, a gofyn am fanylion pellach o'r ddwy wraig sy'n ceisio am y safleoedd gwag.</p>	Clerc

	<p>Cynnig cyfranniad ariannol o £500 oddi wrth Cyngor Sir Gâr, I gynnal gwe-fan y Gymuned. Cytunwyd ceisio amdano. Adroddiad CS ar Fferm Wynt Brechfa.</p> <p>Trafod llwybyr y gwifrau fyddai'n cludo'r ynni o'r melinoedd I Abertawe. Fydde'r gwifrau yn cael eu gosod ar dwy bolyn pren 12 – 14 medr o daldra. Dywed yr Adran Gynllunio rhaid creu llwybyr yng nghysgod elltydd a choedwigoedd, fel nad ydynt mor amlwg. Barn unfrydol y Cyngorwyr oedd mae eu claddu yw'r polisi orau. Angen barn y Cyngor ar yr adran Gynllunio erbyn Mis Medi.</p> <p>Cynrychiolwyr y Cyngor I fynychu Cyfarfodydd Rhanbarthol Un Llais Cymru – ddim am benodi/enwi unigolion; dewis aelod yn ôl y galw pan fydd yna gyfarfod.</p>	
Cynllunio	<p>Maesyffynnon – cais I adeiladu Storfa. Dim gwrthwynebiad Rhoddwyd caniatad I gais Gwylfa.</p>	
Materion Ariannol	<p>Elusen Evans and Lloyd – angen trefnu cyfarod o'r Ymddiriedolwyr.</p> <p>Y Cylyd Blynyddol ar gyfer Arolwg BDO. Cytunwyd fod y Gyllyd yn gywir.</p> <p>Benthyciad tuag at y Bwrdd Treftadaeth – ad-delir yr arian yn fuan.</p> <p>Angen talu'r Cyfieithydd £20.00 – cytunwyd</p> <p>Angen talu cyflog a chostau y Clerc am 3 mis; £431.68 – cytunwyd.</p>	
UFA	<p>Achwyniad gan aelod o'r Gymuned am dorri perthi gan gychwyn am 4.10 y bore. Safon cyffredinol y gwaith yn wael yn ôl barn llawer. Gan fod gyrrwr y peiriant yn cychwyn mor fore, beth am gor flinder a iechyd a diogelwch?</p> <p>Blychau BT – cadarnhad eu bod ym meddiant y Gymuned mwyach. Gosod offer trawiad y galon ynddynt – beth am osod un yn y Siop? Gofyn I gynrychiolydd o Elusen 'Community Heartbeat Trust' I annerch y Gymuned yng Nghyfarfod y Cyngor ym Mis Medi.</p> <p>Ysgrifennu erthygl fer yn gofyn am awgrymiadau/syniadau ar ddefnydd I'r Blychau a'l osod yn Llais y Pentref.</p> <p>Beth am farn yr Adran Gynllunio ar ddefnydd amgen I'r Blychau, byddai angen gwneud cais am hawl newid diben.</p> <p>Beth am eu gwerthu?</p> <p>MH – yr ifanc yn cicio pêl yn erbyn waliau'r Cyfleusterau, er bod y cae chwarae yn ddigon sych.</p> <p>CS – dim arwyddion bod yr heol yn culhau gerllaw Gwarcwm. Llwybyr cludo melin wynt Banc Scythlyn wedi newid I heol Cwmduad, ac yna dros yr heol Rhufeinig.</p> <p>AN – cyflwr gwael ar yr heol heibio Calcut</p> <p>DD – twll ar ymyl yr heol o dan Bwthyn, tebyg I sefyllfa Rhiw Graig.</p>	<p>Clerc</p> <p>Carolyn Smethurst</p> <p>Clerc</p> <p>Clerc</p>

Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)

Dyddiad :

Cafwyd yn gywir :
(Ysgriennydd)

Dyddiad: